# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

<u>COFNODION</u> Cyfarfod Cyngor, Nos Fawrt 12/12/2017 Ysgol Nefyn am 7yh

**<u>Presennol</u>**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Arfon Hughes | Sian Hughes | Gruffydd Williams | Rhys Tudur | Janice Evans |
| Guto Williams | Glenda Rice | Andrew Owen | Rhian Hughes-Jones (Clerc) | |

1. **Ymddiheuriadau**
   Wedi derbyn ymddiheuriadau gan Bleddyn Evans, Sharon Williams, Bethan Williams a Catrin Roberts.

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad bersonol**
   Gruffydd Williams – Ceisiadau Cynllunio gan ei fod yn aelod o'r pwyllgor Cynllunio
   Sian Hughes – Ceisiadau Cynllunio gan ei bod yn aelod o'r pwyllgor Cynllunio
   Gwynfor Ellis Jones – Cadw safle carafanau yn Edern yn Weddol agos at yr ymgeisydd – Cais C17/1175/42/LL
   Alan Wyn Griffith – Cais cynllunio o flaen y pwyllgor - Cais C17/1175/42/LL

3. **Cofnodion 14/11/2017 (er cywirdeb yn unig)**
   Wedi ei derbyn yn gywir.

4. **Ymgynghoriad Gwasanaeth Ieuenctid**
   Croesawu Sion Bryn Roberts i'r cyfarfod i drafod dyfodol Gwasanaethau Ieuenctid Gwynedd
   Mae'r gwasanaeth yn cynnwys 42 o glybiau gwasanaeth ieuenctid ac mae'r toriadau yn effeithio'r holl glybiau.
   Mae pedwar syniad eisoes wedi eu cyflwyno i'r ieuenctid a'r syniad mae'r rhain sydd wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad yw; Cau'r Clybiau fel ac y maent ac i ddechrau clwb amrywiol sydd yn teithio i nifer eang o safleoedd ar hyd a lled Gwynedd.
   Bydd Nefyn yn colli'r clwb ond bydd mwy o gyfle i Edern a Morfa Nefyn, gan eu bod yn cael cyfle i gynnal clwb lleol.

   Gawsom gyfle i wylio fideo sydd wedi eu cynhyrchu i gyd fynd a'r ymgynghoriaeth sydd ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd.

   Nodwyd bod Sian Hughes a Gruff Williams wedi mynychu sesiwn ynglŷn â'r hyn yn eu rôl fel Cynghorwyr Gwynedd; Nodwyd bod y toriadau yn sgil toriad arian o Westminster ac yn fod y gwaith yma wedi bod yn mynd yn ei flaen dros y ddwy flynedd diwethaf yn sgil toriadau.
   Nodwyd bod llai na 2000 o drigolion Gwynedd wedi ymateb i'r holiadur toriadau yng Ngwynedd.
   Mae Sian hefyd wedi bod yn Glwb Ffermwyr Ifanc yn ddiweddar yn trafod y toriadau a nodwyd bod anghenion pobl ifanc Gwynedd yn amrywiol iawn ond yn bwysig.

   Mae wedi eu hamlygu mai'r un bobl ifanc sydd yn mynychu nifer o glybiau gwahanol. Maent eisoes yn teithio Nefyn I Abersoch fel enghraifft yn treulio eu hamser yn mynd o glwb i glwb.

   Ni fydd y 'base' ar nos Fercher ar gael, ni fydd y gwasanaeth ar gael fel ac y mae ar hyn o bryd i'r dyfodol. Ni fydd y gwasanaeth ar gael fel ac y mae wedi bod yn y gorffennol ond bydd yn rhoi cyfleoedd gwahanol ar draws y mudiadau.

Barn y Cyngor Tref; Cytuno hefo opsiwn rhif tri (gweler ymateb i ymgynghoriaeth – Atodiad 1)

Rydym yn annog unigolion i nodi eu barn bersonol yn yr ymgynghoriaeth yn ogystal â barn y Cyngor Tref.

Mae canmoliaeth fawr o glwb Nefyn a'r gwaith mae'r staff yn ei wneud yno i ddarparu gweithgareddau amrywiol a diddorol sydd yn wobrwyol i'r bobl ifanc.
Buasai'r Cyngor Tref yn hoffi manteisio ar y cyfle i ddiolch i'r staff ac i'r ieuenctid am eu gwaith rhagorol dros y blynyddoedd.

Diolch I Sion Bryn Roberts am ddod I egluro'r opsiynau.

Trefnu is bwyllgor; Sian Hughes, Gruff Williams a Rhian Hughes-Jones i ymateb i'r holiadur.

5. **Traethau Nefyn a Morfa Nefyn**
Arfon Hughes yn rhoi trosolwg o'r cyfarfod - Gweler Atodiad 2 isod.

6. **Llwybrau**
Diweddariad gan Gruffydd Williams;
Yn dilyn llifogydd Bryn Penmaen yn ddiweddar mae angen i Gyngor Gwynedd wneud gwaith cynnal a chadw i glirio'r llanast.
Mae gwaith yn mynd yn ei flaen yn llwyddiannus yn Gors Geirch.
Mae llwybr yr arfordir o Nefyn I Abersoch yn barod heb law am Gors Geirch

Diweddariad gan Sian Hughes; Trem y Garn i Ysgol Morfa Nefyn – Dim newid i'r sefyllfa.
Llwybr o Forfa Nefyn i Dy'n Llan – Mae'r bont wedi ei ddinistrio yn ôl sôn, bydd Sian Hughes yn mynd ar ôl Dewi Wyn Owen o Gyngor Gwynedd I ddatrys hyn.

Llythyr Mynediad Ceffylau Gogledd Cymru – Bydd angen mwy o wybodaeth yn cynnwys mapiau ac ati. Mae ymgynghoriad yn mynd yn ei flaen eisoes gan adran Polisi Cyngor Gwynedd.
O safbwynt Cyngor Tref Nefyn rydym wedi bod yn llwyddiannus yn cael grant i wneud gwelliannau i'r holl lwybrau yn yr ardal yn ac mae'r gwaith eisoes wedi ei wneud.

7. **Y Ddól**
Diweddariad gan Gruffydd Williams
Cais wedi ei gymeradwyo ym mhwyllgor cynllunio. Mae G. T. Williams wedi gyrru llythyr yn gofyn am hawl i fynd ar y tir i wneud arolwg a gwaith draenio.
Nodwyd bod angen mwy o bridd ar y safle. Bydd angen edrych ar amodau'r caniatâd yn fanwl i weld os oes modd cludo pridd o safle'r cais i'r ddol.

8. **Cyngor Tref / Ymddiriedolaeth Trefol Nefyn**
Cefndir gan Gruff Williams; Yn y dyfodol roedd Ymddiriedolaeth Nefyn yn estyn gwahoddiad i ddau aelod o Gyngor Tref Nefyn I eistedd ar ei bwrdd. Mae tystiolaeth o hyn wedi dod i law wrth wneud gwaith clirio yn Siop Siarad yn ddiweddar.
Oes bosib canfod mwy o wybodaeth am hyn ac ydi'n syniad i Aelod o'r cyngor Tref eistedd ar fwrdd yr Ymddiriedolaeth.

9. **Safle Ail Gylchu, Ffordd Dewi Sant**
   Dim diweddariad gan Gyngor Gwynedd er wedi gyrru e-bost eto i holi am y broses o waredu'r biniau.

10. **Cyfrifon y Cyngor**
    Trefnu cyfarfod ar 03/01/2018 7:00yh yn Siop Siarad ag is-bwyllgor ariannol;
    Arfon Hughes, Rhian Hughes-Jones, Rhys Tudur, Janice Evans, Glenda Rice, Bleddyn Evans a Catrin Roberts.
    Mae Cyngor Gwynedd angen y PRESEPT i mewn cyn 28/01/2018.

11. **Llyfrgell**
    Diweddariad gan Gruffydd Williams – Dim diweddariad, mae Sharon Williams am holi ynglŷn ar asbestos.

12. **Mynwentydd**
    Diweddariad gan Rhian Hughes-Jones – Yn dilyn edrych ar finiau gwahanol sydd ar gael mae'n amlwg bod amrywiaeth mawr rhwng biniau a phrisiau.
    Mae'r pwyllgor wedi cytuno i feddwl am hyn a dod yn ôl hefo awgrymiadau / blaenoriaethau.

13. **Rheolau'r Cyngor**
    Angen Trefnu cyfarfod is-bwyllgor Rheolau i ddilyn cyfarfod is-bwyllgor ariannol.

14. **Clirio Dogfennau Hanesyddol**
    Diweddariad gan Rhian Hughes-Jones – Diolch i bawb a wnaeth rhoi amser i ddod i glirio yn Siop Siarad a bydd dyddiad arall yn cael ei drefnu at fis Ionawr.

15. **Toiledau Cyhoeddus**
    Diweddariad gan Rhian Hughes-Jones – Angen mynd yn ôl at Gyngor Gwynedd i holi am gytundeb a chadarnhau nad oes angen cyfarfod gan fod Cyngor tref Nefyn eisoes wedi cytuno i'r un trefniant ac eleni.

16. **Arwyddo Goleuo 30mya**
    Diweddariad gan Guto Williams – Mae Guto Williams yn nodi bod arwydd fflachio 30mya wedi ei dynnu ar Allt Goch. Mae'n ymddangos bod yr arwydd wedi ei daro ac wedi malu ac nid yw wedi cael ei drwsio a'i ddychwelyd.
    Rhian Hughes-Jones am edrych i mewn i hyn a chysylltu hefo Cyngor Gwynedd.

**Ceisiadau Cynllunio**

**C17/01064/42/LL**
Cais ymgymeryd a gwaith i adeiladu sied amaethyddol heb gydymffurfio gyda canitad rhif C08D/0495/42/LL
Tu Hwnt i'r Ffrwd, Morfa Nefyn
Gwrthwynebu – Gôr ddatblygiad o'r safle sydd ddim yn safle amaethyddol.

**C17/1091/42/R3**
Estyniad unllawr
Plas Hafan, Ffordd Dewi Sant, Nefyn
Dim gwrthwynebiad

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Arfon Hughes • 07967 556651

**C17/0942/42/AM**
Datblygiad preswyl o 9 ty fforddiadwy
Diwygiadau – Cynlluniau, disgrifiad, asesiad iaithyddol a cymunedol a gwybodaeth ychwanegol am yr angen am dai 27/10/2017
Tir ger Maes Twnti, Morfa Nefyn.
Cefnogi gyda 100% o dai fforddiadwy

**C17/1175/42/LL**
Estyniad i'r safle carafanau teithiol i leoli 12 uned deithiol ychwanegol (cynyddu niferoedd o 20 i 32)
Mownt, Edern, Pwllheli
Cefnogi

## Ceisiadau am gyfraniad

1. **Y Groes Goch Brydeinig – Cais Blynyddol am arian i gefnogi Gwasanaethau Lleol**
2. **Gr**ŵp **mynediad Dwyfor**
3. **Marie Curie – Gwasanaeth Nyrsio**

Bydd Ceisiadau am gyfraniad yn cael ei deli gyda diwedd y flwyddyn.
Rhai wedi amlygu mewn coch yn fater brys ac wedi eu hystyried a'u chymeradwyo

## Gohebiaeth

1. **Un Llais Cymru -** Bwletin Tachwedd 2017.
2. **Un Llais Cymru -** Cyfraith Cynllunio yng Nghymru
3. **Un Llais Cymru –** Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ardal Arfon / Dwyfor
4. **SLCC** - Bwletin Tachwedd 2017
5. **Clerks & Councils Direct** – Tachwedd 2017
6. **Local Council Update** – Mis Tachwedd 2017
7. **Adolygiad Blynyddol Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru –** Angen cyflawni'r adolygiad erbyn 04/12/2017
8. **Pwyllgor Cae Chwarae Edern –** Rhestr aelodau a diolch am gwybodaeth.
9. **MeddygfaRhyd Bach Botwnnog –** Cau meddygfa Abersoch 01/12/2017
10. **Chris Jones –** Tendr i osod coed nadolig.
11. **Bws Arfordir Llyn –** Gwahoddiad I ddathlu llwyddiant 15/12/2017 10:30 – 12:30.
12. **Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol –** Adroddiad blynyddol 2018-19.
13. **Heddlu Gogledd Cymru –** Yr heriau syn cael eu hwynebu gan Wasanaeth yr Heddlu a Heddlu Gogledd Cymru.
14. **Llywodraeth Cymru -** Swm Priodol o dan Adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972
15. **Cyngor Gwynedd –** Cau Stryd y Llan 06/12/2017

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Arfon Hughes • 07967 556651

**Taliadau wedi cael ei cymeradwyo**

| | |
|---|---|
| **Cyflog y clerc** | **£726.93** |
| Hydref £726.93 | |
| **PAYE -** HM Revenue & Customs | **£13.76** |
| **Clif Hughes** – | |
| 5ed taliad contract £1060.00 | **£1060.00** |
| Gwaith Ychwanegol | **£284.00** |
| Gwaith Cynnal Llwybr (BIG) | **£88.00** |
| **D M Parry –** 4ydd Taliad Contract Morfa Nefyn - £166.00 ac 2ail Taliad Contract Fron £140.00 | **£306.00** |
| **Dwr Cymru –** Mynwent Ffordd Dewi Sant | **£27.67** |
| **Pensiwn y Clerc –** Costau cychwynol y pensiwn i BACSTAL drefnu | **£300.00** |

**Ôl Nod**

**Pensiwn y Clerc –** Arfon Hughes am edrych i mewn i hyn.

## ATODIAD 1

### Ymgynghoriad Gwasanaeth Ieuenctid i'r Dyfodol

**Newid y ffordd yr ydym yn darparu'r Gwasanaeth Ieuenctid**

Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn wynebu sawl her ac mae angen i ni flaenoriaethu a datblygu cyfeiriad i'r gwasanaeth tuag at y dyfodol. Mae angen i ni adnabod ffordd wahanol o gynnig gwasanaeth ieuenctid sy'n ateb anghenion pobl ifanc, oddi fewn i'r gyllideb sydd ar gael.

Ar hyn o bryd, rydym yn gwario £995,300 ar y gwasanaeth ieuenctid, ond bydd gennym £270,000 yn llai o arian yn y dyfodol. Felly mae'n rhaid i ni feddwl am ffordd wahanol o weithio, ar y cyd gyda'n partneriaid, i fedru parhau i ddarparu cefnogaeth i bobl ifanc.

Yn ystod gaeaf 16/17, gofynnwyd i bobl ifanc, cymunedau lleol a sefydliadau ar draws Wynedd i'n helpu i lunio gweledigaeth ar gyfer dyfodol y Gwasanaeth Ieuenctid. Cawsom wybod beth yw eu blaenoriaethau a'u anghenion o'r gwasanaeth. Cwblhaodd dros 791 o bobl ein harolwg.

Rydym wedi defnyddio yr ymatebion yma i adnabod ffyrdd gwahanol i ddatblygu'r gwasanaeth ieuenctid. Er enghraifft:

- rydym wedi ystyried rhedeg llai o glybiau ieuenctid yn y sir, ond os wnawn ni hyn dywedodd pobl ifanc wrthym y byddai rhai ohonynt yn methu ein cyrraedd.
- rydym hefyd wedi ystyried newid sut yr ydym yn gweithio gyda grwpiau gwirfoddol.
- rydym yn ystyried symud i ffwrdd o roi grantiau i rai mudiadau yn unig, i fod yn cydweithio gyda grwpiau gwirfoddol sy'n helpu pobl ifanc.

Rydym wedi pwyso a mesur sut y byddai'r gwahanol ffyrdd yma o ddatblygu'r gwasanaeth ieuenctid yn cael effaith ar bobl ifanc, ar ein cymunedau, a'n partneriaid, yn ogystal â sut fyddai hyn yn ateb Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a'r Ddeddf Cydraddoldeb.

Erbyn hyn rydym wedi adnabod un cyfeiriad yr ydym yn ei ffafrio, ac yn cynnal yr ymgynghoriad yma er mwyn cael gwybod gennych chi beth yw eich barn.

## Ymateb Cyngor Tref Nefyn;

### 7. Mae'r fideo ar gychwyn yr holiadur yn egluro sut gall y Gwasanaeth Ieuenctid weithio yn y dyfodol. Nodwch:

**Unrhyw beth da am hyn;**

1. Newid mewn lleoliad fel gellir cymunedau sydd heb wasanaeth gael gwasanaeth achlysurol yn eu hardal nhw
2. Cael trawstoriad o bobl ifanc, staff a grwpiau
3. Cyfleoedd gwahanol i ddatblygu sgiliau

**Unrhyw beth fyddai'n eich poeni;**

1. Trafnidiaeth – Costau (Buasai'n syniad gallu defnyddio cerdyn bws ysgol a choleg i amseroedd y clwb efallai?)
2. Methu unigolion bregus – Unigolion maent yn eu hymddiried ynddynt yn lleol / Gweithwyr lleol yn adnabod unigolion a'i chefndir
3. Deddf Llesiant / Iechyd Meddwl
4. Diffyg cydweithio hefo'r sector gwirfoddol
5. Methu gwarchod oedran 11-25 i gyd – Diogelu'r holl annwyliadwy

**Beth fyddai'n dy rwystro rhag cymryd rhan?**

1. Ddim yn hoff o'r gweithgareddau sydd ar gael
2. Trafnidiaeth – Methu cyrraedd achos o newid bws ac ati ddim yn gyfleus / Methu fforddio trafnidiaeth
3. Gwrthdaro yn / hefo ardaloedd gwahanol

## 8. Oes gennych unrhyw sylw pellach am ddyfodol y Gwasanaeth Ieuenctid?

1. Gwasanaeth ieuenctid yn gwrando ar anghenion pobl ifanc. Datblygu i'r anghenion.
2. Gwarchod iechyd a lles bobl ifanc
3. Gwasanaeth ar gael yn ystod gwyliau'r ysgol – Mae'r adeg yma yn aml yn anoddach i'r annwyliadwy
4. Cofio am gefnwlad – anghenion yn wahanol ond yr un mor bwysig.

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Arfon Hughes • 07967 556651

# ATODIAD 2

**COFNODION Cyfarfod Cyngor Tref Nefyn, Cyngor Gwynedd a'r Ymddiriedolaeth.**
**Dydd Iau 30/11/2017 Siop Siarad, Nefyn am 3yh**

## Rheoli Traethau

**Presennol**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyngor Tref Nefyn | Arfon Hughes | Gruffydd Williams | Rhian Hughes-Jones (Clerc) |
| Cyngor Gwynedd | Llyr Bowmont | Barry Davies | |
| Ymddiriedolaeth Cenedlaethol | Andy Godber | | |

**Ymddiheuriadau**

Sian Hughes

**Cofnodion**

Mae dau beth sydd yn hanfodol i ddyfodol rheoli traethau Nefyn a Morfa Nefyn:

1. Lles yr arfordir.
2. Datrysiad syn weithredol ymarferol.

Mae Cyngor Gwynedd eisoes yn llesu rhan fwyaf o draethau Gwynedd ac eithrio Nefyn a Morfa Nefyn/Porthdinllaen. Mae trafodaethau helaeth wedi digwydd dros y pymtheg mlynedd diwethaf gydag asiant stad y goron i gadarnhau les ar hyd yr arfordir.
Mae toriadau ac arbedion yn amlwg yn chware rhan yn y trafodaethau bellach. Mae cwestiynau yn cael eu codi fel; Pam bod Cyngor Gwynedd yn llesu'r traethau gan y Goron? (Er mwyn gallu sicrhau mynediad, hawl i lansio, hyrwyddo digwyddiadau.

Mae Cyngor Gwynedd wedi darparu trio opsiwn i'r dyfodol;

1. Dim newidiadau i'r trefniadau – Oes angen newid?
2. Cytuno i gytundeb cyfansawdd newydd – Dim ond "Heads of Terms" ar gael ar hyn o bryd.
   Mae hyn yn golygu cynnwys Cyngor Tref Nefyn.
3. Ildio prydlesi presennol – Rhoi rhybudd nad ydynt yn cario'r les ymlaen i'r Goron.

Mae hyn yn golygu bod gan y goron hawl i ddymchwel unrhyw strwythur ar y tir. Pa hawl mae hyn yn gadael i'r cyhoedd a'r Cyngor hysbysebu a hyrwyddo digwyddiadau ar y traethau

Bydd yr opsiynau yn cael eu rhoi o flaen y Cabinet yw penderfynu.

Mae Cyngor Gwynedd, yr Ymddiriedolaeth a Chyngor Tref Nefyn yn ffafrio opsiwn rhif dau. Mi fydd hyn yn golygu costau ychwanegol i Gyngor Gwynedd. Mae Cyngor Gwynedd ddim ond yn rheoli traethau wedi eu gwobrwyo ac nid yw cynghorau eraill yn rhoi cyfraniad. Er hyn cytunwyd bod Nefyn a Morfa Nefyn / Porthdinllaen yn achosion arbennig.

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Arfon Hughes • 07967 556651

Mae'n bwysig adeiladu ar drefniadau hynod lwyddiannus eleni i'r dyfodol. Mae'r "Heads of Terms" yn nodi amserlen dros 40 mlynedd – Ydi hyn yn rhy hir?
Mae'r Ymddiriedolaeth eisiau hyrwyddo cadwraeth yn ogystal â diogelwch yn Porthdinllaen. Nodwyd bod problemau yn dod i'r ardal o lefydd eraill hefyd ac nid bob amser yn uniongyrchol o'r traethau eu hunain. Nifer o bobl yn lansio o e.e.Borth Ysgadan a Trefor i ddod i Porthdinllaen. Mae'n bwysig amddiffyn o'r môr hefyd.
Mae Porthdinllaen wrth gwrs wedi ei ddynodi fel harbwr ac mae hyn yn rhoi mwy o opsiynau rheoli. Gellir rheoli cyflymder ac ati. Buasai rhoi cyflymder uchaf ar y bwiau yn y bae.

Bydd yr Ymddiriedolaeth yn rhoi ateb cadarn ynglŷn â sefyllfa Porthdinllaen cyn gynted â phosib. Os ydi'r Ymddiriedolaeth yn penderfynu trin Porthdinllaen fel harbwr byddent wedyn yn gorfod cymryd cyfrifoldeb dros y bae i gyd.
Bydd hyn ond yn gadael traeth Nefyn o dan gyfrifoldeb Cyngor Gwynedd a Chyngor Tref Nefyn.

Mae pawb yn cytuno bod warden ar y traeth yn hanfodol angenrheidiol.

Cadarnhawyd bod Cyngor Tref Nefyn a'r Ymddiriedolaeth yn hapus i gyfrannu £5000 yr un ar gontract hir dymor (chwyddiant yn cael ei weithio ar gontract byr dymor).
Bydd Cyngor Gwynedd yn prydlesu gan y Goron ac yna contract rhwng Cyngor Gwynedd a Chyngor Tref Nefyn / Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

**Camau Nesaf**
Llyr Bowmont, Cyngor Gwynedd - Cwblhau'r adroddiad i fynd o flaen y cabinet.
Andy Godber, Yr Ymddiriedolaeth - Cadarnhau'r sefyllfa yn Mhorthdinllaen.
Cyngor Tref Nefyn – Trefnu cyfarfod hefo'r bad achub sydd yn awyddus i ddangos mwy o bresenoldeb yng Ngwynedd.

Oll – Cyfarfod yn dilyn hyn i wneud trefniadau ymarferol.

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Arfon Hughes • 07967 556651